



Dŵr i fyw

Amser gofynnol

45 munud

Amcanion

- Deall fod dŵr yn rhan hanfodol o fywyd, pwy bynnag ydym ni, a lle bynnag rydym yn byw.
- Deall canlyniadau posibl prinder dŵr neu ddiffyg glanweithdra.
- Deall y problemau perthnasol yn ymwneud â dŵr sy'n wynebu pobl yn Niger

Byddwch angen

Sleidiau PowerPoint Dŵr i fyw

Copiau printiedig o

- Sleid 9 – Dalen dadansoddiad astudiaeth achos (un i bob grŵp)
- Sleidiau 4, 6 ac 8, yn portreadu plant yn Niger (un o'r rhain i bob grŵp)
- Taflen wybodaeth Dŵr yn Niger (un i bob grŵp)

Beth i'w wneud

Rhan 1– Cyflwyno'r syniadau

Yn fyr, taflu syniadau am bopeth yn ymwneud â dŵr.

Yna, gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu cyrraedd adref heno heb gyflenwad dŵr. Gofynnwch, 'Sut byddai bod heb ddŵr yn effeithio arnoch chi a'r bobl o'ch amgylch?'

Ysgrifennwch rai o'u hawgrymiadau cychwynnol ar y bwrdd gwyn. Ydi eu hawgrymiadau'n gysylltiedig? Ar brydiau, ydi un peth yn arwain i'r llall? Gofynnwch i'r disgyblion lunio saethau rhwng y canlyniadau, a gofynnwch iddyn nhw egluro pam eu bod yn credu bod cysylltiad rhyngddyn nhw.

Rhan 2 – Dadansoddi astudiaethau achos Niger

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bychain o 2 i 6 myfyriwr sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Eglurwch eich bod yn awr am edrych ar luniau a straeon gan blant o Niger. Ewch drwy sleidiau 2 i 8 y ddogfen PowerPoint, fel bod y disgyblion yn cael syniad o beth fydd eu grŵp nhw a grwpiau eraill yn ei ystyried.

Yn awr, dosbarthwch i bob grŵp naill ai sleid 4, 6 neu 8 ac 1 copi printiedig o sleid 9. Gosodwch sleid 9 i fyny i bawb gael cyfeirio ato. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried ac ateb cwestiynau 1 a 2.



Yn awr, dosbarthwch daflen wybodaeth Niger, sy'n amlinellu'r problemau perthnasol yn ymwneud â dŵr yn Niger. Darllenwch drwy'r daflen fel dosbarth neu mewn grwpiau bychain. Rŵan cwblhewch gwestiynau 3 a 4.

Unwaith y bydd y myfyrwyr wedi ysgrifennu eu syniadau, gallwch edrych arny'n nhw fesul un.

Rhan 3 – Sesiwn Cloi

Mae llawer o ffyrdd y gellid gorffen y gweithgaredd. Yn syml, efallai byddwch yn dewis trafod beth mae'r myfyrwyr wedi ei ddysgu o'r gweithgaredd, ond dyma restr gydag awgrymiadau eraill:

- Gofynnwch i'r myfyrwyr chwarae rhan mewn parau – un myfyriwr i chwarae rhan plentyn o'r astudiaeth achos, a'r llall i ofyn y cwestiynau sydd wedi eu cynnig fel atebion yng nghwestiwn 4. Gall unrhyw barau hyderus actio eu 'rhan' i weddill y dosbarth.
- Rhowch yr astudiaethau achos a'r taflenni dadansoddiad i fyny o amgylch y dosbarth, a gofynnwch i'r myfyrwyr fynd o amgylch ac edrych ar waith y grwpiau eraill.
- Dangoswch eu gwaith yn y dosbarth a chyfeiriwch yn ôl ato trwy gydol Wythnos Ddŵr Oxfam i'w hatgoffa pa mor bwysig ydi dŵr, a'r problemau dŵr yn Niger.
- Gofynnwch i'r myfyrwyr adborthi eu syniadau i gyd yng nghwestiwn 4 ac ysgrifennwch hwy ar siart troi - trwy gydol yr Wythnos Ddŵr gall y myfyrwyr (neu chi) dicio rhai o'r cwestiynau rydych yn teimlo eu bod wedi cael sylw.